Llythrennedd

Meini Prawf Llwyddiant:
A yw eich plentyn yn gallu...?

- Ymateb i'r llyfr 'James a'r Eirinen Wlanog Enfawr' gan ddefnyddio sgiliau rhagfynegi ac adolygu?
- Darllen a thrafod llyfr, gan gynnwys trafod cynnwys, clawr, teitl, ac awdur; hoff beth/au… mynegi barn am rhywbeth nad yw'n plesio?
- Defnyddio iaith ffeithiol i bwrpas perswadio, mynegi barn a chyflwyno gwybodaeth?
- Ysgrifennu disgrifiad, cyfarwyddiadau ac adroddiad papur newydd gan ddechrau trefnu eu gwaith i baragraffau (erbyn Bl 4) wrth ysgrifennu'n fwy estynedig?
- Ymateb i lyfrau Read Write Inc ac eraill ar lafar ac yn ysgrifenedig?
- Ysgrifennu mewn llawysgrifen clwm a thaclus?

Rhifedd

Meini Prawf Llwyddiant:
A yw eich plentyn yn gallu...?

- Galw i gof yn sydyn ffeithiau tablau 2,3, 5 a 10 (Bl 3), gan anelu hefyd at dablau 4, 6 a thu hwnt (Bl 4)?
- Darllen ac ysgrifennu rhifau cyfan hyd at 1,000 (Bl3) a 10,000 (Bl 4)?
- Dwyn i gof a defnyddio bondiau rhif 1-10; 1-20; 20-100 (Bl 3) a hyd at o leiaf 1,000 erbyn Bl 4?
- Adio a thynnu 1, 10, 100 neu 1000 i/o unrhyw rhif cyfan (Bl 3);
- Adio rhif dau ddigid at, neu dynnu rhif 2 ddigid o, rif 3 digid drwy ddefnyddio dull meddwl neu papur a phensil priodol (Bl 4)?
- Dyblu ac haneru rhifau 2 ddigid (Bl 3) a 3 digid (Bl 4)?
- Defnyddio arian i dalu am eitemau hyd at £2 (Bl 3) a £10 (Bl 4) a chyfrifo'r newid?
- Gweithio'n systematig i ddatrys problemau a rhesymu sut y maent wedi cyrraedd datrysiad?

Blwyddyn 3 a 4 TYMOR YR HYDREF 2016 THEMA:- BYW'N IACH

Cyswllt traws-gwricwlaidd Ffocws ar Fyw'n Iach

Meini Prawf Llwyddiant:
A yw eich plentyn yn gallu...?

- Adnabod a nodi'r prif ffyrdd o fyw'n iach gan gynnwys bwyta diet cytbwys, gwneud ymarfer corff cyson a gallu siarad yn onest am eu teimladau?
- Cymhwyso sgiliau Gwyddonol (e.e. rhagfynegi, rhesymu a trin data) i gyd-destunau cyfarwydd?
- Dylunio, creu a gwethuso brechdan iach?
- Adnabod arweinwyr o fewn y Beibl ac ymysg ein cymdeithas?
- Gwerthuso cerddoriaeth Vivaldi, a pherfformio a chyfansoddi rhythmau syml gan adnabod rhai o'r elfennau cerddorol?

Ymweliad Addysgol : Techniquest (mwy o fanylion i ddilyn).